

## Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 6 Ionawr 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.00	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru">SeneddArchwilio@cynulliad.cymru</a>

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (13.00)

### 2 Papur(au) i'w nodi

(13.00 – 13.30)

#### 2.1 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (22 Tachwedd 2019)

(Tudalennau 1 – 2)

#### 2.2 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (25 Tachwedd 2019)

(Tudalennau 3 – 4)

#### 2.3 Caffael Cyhoeddus: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (4 Rhagfyr 2019)

(Tudalennau 5 – 8)

#### 2.4 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (5 Rhagfyr 2019)

(Tudalennau 9 – 14)

#### 2.5 Rheoli Gwastraff: Gwybodaeth ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Rhagfyr 2019)

(Tudalennau 15 – 16)

#### 2.6 Craffu ar Gyfrifon 2018–19: Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (9 Rhagfyr 2019)

(Tudalennau 17 – 18)

#### 2.7 Craffu ar Gyfrifon 2018–19: Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (10 Rhagfyr 2019)

(Tudalen 19)



- 2.8 Rheoli Gwastraff: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (10 Rhagfyr 2019)**  
(Tudalennau 20 – 21)
- 2.9 Rheoli meddyginaethau: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (10 Rhagfyr 2019)**  
(Tudalennau 22 – 35)
- 2.10 Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Cymuned: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (11 Rhagfyr 2019)**  
(Tudalen 36)
- 2.11 Gohebiaeth y Pwyllgor: Diwygio Etholiadol y Cynulliad (16 Rhagfyr 2019)**  
(Tudalennau 37 – 38)
- 2.12 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (23 Rhagfyr 2019)**  
(Tudalennau 39 – 41)
- 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**  
(13.30)  
Eitamau 4, 5, 6 & 7
- 4 Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yng Nghymru: Sesiwn friffo gan Swyddfa Archwilio Cymru**  
(13.30 – 13.45) (Tudalennau 42 – 53)  
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru – [Gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru](#) (mis Hydref 2019)  
PAC(5)-01-20 Papur 1 – Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad  
Papur Briffio
- 5 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru (13 Rhagfyr 2019)**  
(13.45 – 14.00) (Tudalennau 54 – 55)  
PAC(5)-01-20 Papur 2 – Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru

- 6 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau: Trafod y  
llythyr drafft**  
(14.00 – 14.30) (Tudalennau 56 – 61)  
PAC(5)-01-20 Papur 3 – Llythyr drafft
- 7 Cyfarwyddyd Gweinidogol – Trefniadau Pensiwn y GIG ar gyfer  
2019/20**  
(14.30 – 15.00) (Tudalennau 62 – 67)  
PAC(5)-01-20 Papur 4 – Gohebiaeth Llywodraeth Cymru

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

Ein Cyf: AG/DP/SB

22 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Ramsay

### Gwasanaethau Gwybodeg Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Tachwedd.

Rwyf yn falch bod y Pwyllgor wedi nodi'r cynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran bwrw ymlaen â'i argymhellion. Rwyf hefyd yn falch eich bod yn cefnogi ein dull o sefydlu'r System Cyfrifon Iechyd (SHA) newydd, gan gofio am yr amserlen.

Cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y meysydd a ganlyn:

- Rhannu manyleb y swydd ar gyfer y Prif Swyddog Digidol ar ôl ei gwblhau, a rhoi gwybod am yr ymgeisydd llwyddiannus ar ôl iddo gael ei benodi
- Edrych ar argaeledd Fy Iechyd Ar-lein pan fydd practisiau meddygon teulu yn uno
- Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith caffael ar gyfer systemau gwybodeg meddygon teulu, a hynny ar ôl i'r contract gael ei ganslo yn ddiweddar

### Prif Swyddog Digidol Cymru

Mae'r gwaith o fwrw ymlaen â hysbysebu swydd y Prif Swyddog Digidol newydd yn mynd rhagddo. Yn y Pwyllgor, nodais fod y gwaith o gwblhau'r broses hon wedi dechrau a fy mod yn gobeithio y bydd y broses reciwtio wedi dod i ben erbyn y gwanwyn. Nid wyf yn gallu rhannu disgrifiad swydd drafft y cleient â'r Pwyllgor gan fod fy nhîm wrthi'n gweithio ar broses reciwtio a gwerthuso'r GIG i sicrhau bod y disgrifiad swydd yn barod ar gyfer



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Udaleni y pecyn 1 Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0251182  
Andrew.Goodall@gov.wales

Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

hysbysebu yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau, byddaf yn trefnu i roi'r fersiwn gyhoeddledig derfynol i'r Pwyllgor.

Pan oeddwn gerbron y Pwyllgor, fel y cofiwch, nodais bwysigrwydd sicrhau y gallwn ddenu'r unigolyn cywir sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol. Mae'n bosibl bod y Pwyllgor wedi gweld cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref ynghylch penodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r penodiad hwn hefyd i fod yn ei le erbyn y gwanwyn. Mae'r penodiadau hyn yn allweddol ar gyfer cefnogi ein trawsnewidiad digidol ar draws y sector cyhoeddus. I sicrhau bod ein hymdrehch reciwtio yn denu ymgeiswyr cadarn ar gyfer y ddwy rôl, rwyf wedi gofyn i fy nhîm weithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, i sicrhau cysondeb rhwng y ddwy broses reciwtio. Ar ôl i'r broses o reciwtio Prif Swyddog Digidol newydd ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei chwblhau, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei chanlyniad.

**Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am waith caffael y system gwybodeg meddygon teulu ar ôl i'r contract gael ei ganslo yn ddiweddar; ac edrych ar argaeledd Fy lechyd Ar-lein pan fydd practisiau meddygon teulu yn uno.**

Yn wreiddiol, 5 mlynedd oedd hyd y contract ar gyfer darparu systemau clinigol i bractisau meddygon teulu Llywodraeth Cymru o fis Ionawr 2019 ymlaen, gyda'r opsiwn o ymestyn am hyd at ddwy flynedd arall. Mae'r penderfyniad i derfynu un o'r darparwyr yn golygu mai un darparwr arall sydd ar ôl ar y fframwaith. Yng ngoleuni hyn, bydd cyfnod adolygu â rhanddeiliaid meddygon teulu yn cael ei gynnal i bennu'r opsiynau possibl ar gyfer bwrw ymlaen. Mae disgwyl i'r adolygiad hwn ddirwyn i ben ym mis Ionawr 2020 er mwyn gallu asesu'n llawn yr opsiynau sydd gan GIG Cymru ar gyfer parhau i gynnig system glinigol i bractisau meddygon teulu. Yn dilyn yr adolygiad hwn â rhanddeiliaid, byddwn yn cytuno ar gam nesaf y strategaeth gaffael.

Pan fydd dau bractis sy'n defnyddio systemau clinigol gwahanol yn uno, gall hynny achosi problem i gleifion. Nid problem dechnegol yw hon. Pan fydd dau bractis yn newid i ddefnyddio un system glinigol, ar hyn o bryd, golyga hyn bod rhaid i gleifion y practis sydd wedi uno ailgofrestru i ddefnyddio Fy lechyd Ar-lein pan fyddant yn symud i system newydd. Rwyf wedi gofyn i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru edrych ar ffyrdd o hwyluso'r broses hon i gleifion.

Rwyf wedi nodi y byddech yn gwerthfawrogi cael diweddariadau rheolaidd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, yn enwedig ynghylch y ffordd y bydd rolau'r Prif Swyddog Digidol, y Prif Swyddog Gwybodaeth a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol yn cyd-fynd â'i gilydd. Nodwyd hefyd eich bod am gael diweddariad manwl ar y gwaith o weithredu gweddill yr argymhellion yn Adroddiad y Pwyllgor erbyn 31 Hydref 2020.

Yr eiddoch yn gywir



**Dr Andrew Goodall CBE**



Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General  
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Education and Public Services Group

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

25 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Ramsay

### Ymchwiliad i drefn reoleiddio Cymdeithasau Tai – y newyddion diweddaraf

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn rhoi gwybod imi fod y Pwyllgor yn falch fod yr holl argymhellion wedi'u cwbllhau; a bod y Gweinidog wedi ymrwymo i adolygu cwmpas y rheoliadau ynghylch gwasanaethau i denantiaid; a'u bod hefyd yn croesawu datganiad y Gweinidog mewn perthynas â thenantiaid tai cymdeithasol.

Yn eich llythyr, gwnaethoch ofyn am eglurhad ynghylch sut yr ydym yn mynd i'r afael â chwestiwn sgiliau a gallu'r Tîm Rheoleiddio yn y tymor byr. Fel y dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn ei hateb i adroddiad Bwrdd Rheoleiddiol Cymru ("y Bwrdd"), *mae materion yn ymwneud ag adnoddau yn cael eu hadolygu'n gyson yng nghydestun cyfyngiadau parhaus ar adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru*. Mae hyn yn parhau i fod yn wir.

Yn benodol mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor a'r Bwrdd, mae nifer o fentrau wedi'u rhoi ar waith. Yn ei adroddiad, roedd y Bwrdd "...yn croesawu rhai newidiadau arfaethedig i strwythur y tîm rheoleiddio a'r dull o weithredu'r fframwaith...". Nod y newidiadau y cyfeirir atynt yw sicrhau bod y swyddogaeth reoleiddiol yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol, ac fe'u seiliwyd ar yr adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r tîm wedi bod yn pontio i fodel gweithredu newydd dros y misoedd diwethaf ac, o ganlyniad, mae'r ymrwymiad i ddarparu o leiaf un dyfarniad rheoleiddio ar gyfer pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn parhau ac mae achosion sy'n creu pryder rheoleiddiol yn cael eu rheoli'n effeithiol.



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047  
[tracey.burke@gov.wales](mailto:tracey.burke@gov.wales)

Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding

Tudalen y pecyn 3

Yn ogystal, gan gydnabod bod gwahanol sgiliau a phrofiad o fewn y tîm, cymeradwyodd y Gweinidog gyllid ar gyfer rhaglen ddatblygu wedi'i hwyluso'n allanol. Mae'r rhaglen hon wedi cychwyn a bydd yn rhedeg dros y pum mis nesaf, fwy neu lai. Yn ogystal â datblygu ymhellach y dull o asesu llywodraethiant (o'n profiad ni, llywodraethiant sydd wrth wraidd y mwyafrif o broblemau y daethom ar eu traws o ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig), mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cyfnod hyfforddi a datblygu dwys ar gyfer holl aelodau'r tîm i helpu i ddatrys y diffygion o ran sgiliau. Bydd y rhaglen ddatblygu'n cael ei hymestyn i staff mewn canghennau eraill o'r Is-adran â'r nod o sicrhau bod gan bobl y tu allan i'r tîm wybodaeth yngylch rheoleiddio. Byddai'r rhain wedyn yn gallu cyfrannu pe byddai pwysau gwaith/capasiti sylweddol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, gallwn sicrhau'r Pwyllgor y bydd unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r broses reoleiddio, o ganlyniad i fentrau sydd yn yr arfaeth neu sydd eisoes ar waith, yn cael eu dadansoddi'n ofalus iawn yn nhermau eu goblygiadau o ran yr adnoddau rheoleiddio sydd ar gael. Rydym hefyd yn sicrhau'r Pwyllgor y byddwn yn sefydlu trefniadau priodol i wneud yn siŵr bod trefn reoleiddio addas i'w diben yn cael ei chynnal, i ddiogelu tenantiaid ac i warchod buddsoddiad cyhoeddus mewn tai cymdeithasol.

Yn gywir



Tracey Burke



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Tudalen y pecyn

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
Ffôn 0300 0258047  
[tracey.burke@gov.wales](mailto:tracey.burke@gov.wales)

Ffôn • Tel 0300 0258047  
[tracey.burke@gov.wales](mailto:tracey.burke@gov.wales)  
Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturol  
Economy, Skills and Natural Resources Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Nick Ramsay AM  
Chair  
Public Accounts Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

4 December 2019

Dear Chair

I wrote to you on 29 April to follow up on a number of important procurement-related points raised in your letter of 29 March.

At that time, I gave an indication of the work that was to be taken forward over the summer months and that I would share progress with the Committee thereafter. I am pleased to provide an update now.

In my letter, I mentioned a future procurement programme was under development and would be driven by a new strategy that was being shaped by consultation with stakeholders. Work on the strategy is progressing well with nine headline strands providing the architecture that will provide the necessary structure to drive major change. The architecture supports delivery of procurement commitments set out in the Written Statement issued by the then Cabinet Secretary for Finance in September 2018, in addition to the manifesto commitments. A short summary of the nine strands is attached at Annex 1.

Strand 9 covers the evolution of the National Procurement Service (NPS). This work is taking place in close collaboration with stakeholders such as the WLGA. The WLGA are finalising their overall procurement strategy, one element of which will be the future support they receive from the new national contracting body.

Under strand 9, the intention is to evolve the NPS into a function that is focussed on category management, delivering real and tangible practical policy integration. This is proceeding well. The design is based on stakeholder preference that the new policy function (described under strand 4) and the new national contracting function should be integrated.

This renewed NPS model – which will see a reduced number of frameworks delivered, but with a greater focus on delivering practical policy interventions – will be a key component in supporting the significant changes proposed through the other work strands.

Subject to continuation of the collaborative co-design approach being implemented, I anticipate being able to provide a further update to PAC next spring.

Please do not hesitate to contact me should you require any further information.

Yours sincerely



**Andrew Slade**  
Director General  
Economy, Skills and Natural Resources

## **Procurement Transformation - Architecture**

### **Strand 1 – Leadership**

We want the Welsh Government to lead by example in becoming an exemplar of procurement best practice.

We will use Government Commercial Standards to keep the Welsh Government at the necessary levels of awareness and capability.

### **Strand 2 – Policy initiatives driven by data**

We will take a targeted and data-driven approach to policy application to ensure we focus efforts where maximum value can be achieved.

We will use a prioritisation tool to help us identify key policy areas, providing an opportunity to implement initiatives so the full value of procurement can be realised nationally, regionally and locally.

### **Strand 3 – Capability and profile of the procurement profession**

We will build capability and resilience across the procurement profession in Wales to address the skills deficit, empower staff and encourage innovation.

We will deliver a new skills and capability plan to equip existing procurement officers with modern commercial techniques, to raise the commercial awareness of everyone else create a future talent pipeline and to raise the status of the profession across Wales.

### **Strand 4 - A new policy development and delivery service (with toolkits)**

We will strengthen policy development and delivery across the Welsh public sector that helps establish a culture that maximises social, economic, environmental and cultural outcomes.

We will provide support, training and tools to help buying organisations maximise the outcomes achieved through procurement.

### **Strand 5 – Supply chain intervention and analysis**

We will implement Cabinet priorities (such as creating local jobs) by analysing data and applying interventions to supply chains throughout Wales.

We are working with supply chains to help them restructure to include local suppliers that will benefit the local economy.

### **Strand 6 – Marketing and engagement programme**

We will join up the Welsh public sector procurement community across Wales.

We will showcase success and share good practice using modern digital technology.

## **Strand 7 – Digital implementation plan**

We will develop a modern infrastructure for digital procurement by collaborating with our colleagues throughout the integrated Welsh public services.

We are developing a progressive future digital procurement strategy, which will include plans to maximise our investment in eSourcing, Procure 2 Pay, spend analysis, contract lifecycle management and strategic supplier management tools.

## **Strand 8 – New governance process**

We will implement a refreshed and overarching governance process for Welsh public sector procurement that supports the delivery of Welsh Government priorities (such as Prosperity For All), as well as other public sector priorities.

## **Strand 9 – Evolution of NPS**

We will evolve NPS into a function that is focussed on specific category management delivering practical policy integration.

We will support the development of a pipeline of contracts for Wales, and ambition to purchase innovative solutions for the Welsh public sector.

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Mr John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,

Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/170/caf

**Dyddiad cyhoeddi:** 5 Rhagfyr 2019

Annwyl John

### Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

1. Diolch am eich llythyr ar 22 Tachwedd 2019 yn ein gwahodd i nodi barn ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Rwy'n deall yr hoffech gael sylwadau yn benodol ar ddarpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Yn yr amser sydd ar gael, ni allaf ond roi safbwytiau rhagarweiniol, ond rwy'n gobeithio eu bod yn ddefnyddiol. Bydd fy nghydweithwyr yn ychwanegu at ein safbwytiau ac yn eu hegluro yn eich sesiwn ar 11 Rhagfyr 2019, a byddwn yn cyflwyno eto erbyn 3 Ionawr 2020.

### Trefniadau asesu perfformiad: gofynion perfformiad

2. Rwy'n croesawu bwriad y Bil o wella'r trefniadau asesu perfformiad. Mae'n ymddangos i mi fod y ddyletswydd i barhau i adolygu perfformiad, a ddarperir yn adran 88, yn ddull mwy realistig a chydlynol na'r egwyddorion a'r dyletswyddau gwella a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
3. Bu gan fy rhagflaenydd a chydweithwyr yn Swyddfa Archwilio Cymru bryderon ers amser am gymhlethdod beichus Mesur 2009. Mae'r swyddogaethau ac egwyddorion niferus a orfodwyd gan Fesur 2009 wedi arwain rhai awdurdodau i fod o'r farn bod y gwaith gwella perfformiad yn feichus ac yn fiwrocrataidd. Yn ogystal â hynny, nid yw'n eglur bod gofynion gwella perfformiad y Mesur wedi arwain at unrhyw welliannau ym mherfformiad awdurdodau, er ei bod yn anodd nodi effeithiau penodol o gofio'r amgylchedd cymhleth y mae Llywodraeth leol yn gweithredu ynddo, yn enwedig o ystyried y gostyngiadau mewn cyllid. Mae'n amlwg bod angen deddfwriaeth i ddirymu gofynion Mesur 2009 a'u disodli â gofynion mwy realistig a chydlynol.
4. Byddwn yn nodi hefyd fod y Bil presennol yn llawer mwy realistig a chymesur yn hynny o beth na bil drafft llywodraeth leol Tachwedd 2015.

## Hunanasesiadau

5. Er fy mod yn cydnabod buddion annog mwy o hunanymwybyddiaeth, rwyf ychydig yn amheus a fydd gofynion adran 90 yn eu hunain yn gwella ansawdd hunanasesu. Mae profiad yr "Adolygiadau Gwerth Gorau", yr oedd yn ofynnol i awdurdodau eu cynnal o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, ac yn fwy diweddar, Mesur 2009, yn dangos y gwendidau posibl yn y dull, sef diffyg gwrthrychedd a thrylwyrredd cyson; amharodrwydd i fod yn feirniadol a thueddiad i fod yn arwynebol wrth gasglu ac asesu tystiolaeth o berfformiad; a phrinder sgiliau angenrheidiol a chapasiti i gynnal asesiadau cynhwysfawr. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu bod yr awydd a'r capaciti ar gyfer hunanwerthuso gwrthrychol wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf, ac nid wyf wedi fy argyhoeddi ychwaith y bydd y gofynion newydd eu hunain yn arwain at well sefyllfa.
6. Er hyn, mae'r darpariaethau newydd ar gyfer hunanasesu yn fwy syml na'r gofynion o dan Ddeddf 1999 a'r gorchmynion a'r canllawiau a wnaed o dan y Ddeddf honno, ac maent yn fwy cydlynol a chynhwysfawr na gofynion Mesur 2009. Dylai hyn fod yn ddefnyddiol wrth gysylltu asesiadau perfformiad ag ystyriaethau archwilio o'r trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (sy'n ofynnol o dan adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004).
7. Yn olaf, byddai'n ddefnyddiol pe byddai dyddiad terfyn ar gyfer llunio hunanasesiadau o bob blwyddyn ariannol: o bosibl pedwar mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Heb ddyddiad terfyn, ymddengys y gellid cynnal hunanasesiad o flwyddyn ariannol ar ryw adeg amhenodol yn y dyfodol.

## Asesiadau Panel

8. Mae gen i rai amheuon a fydd asesiadau panel (adran 91) yn cyflawni'r amcanion a fwriedir gan Weinidogion Cymru. Gan y penodir aelodau panel gan y cyngorau y byddant yn eu hasesu, ceir perygl y bydd hunan-fudd yn tanseilio gwrthrychedd aelodau'r panel. Rwyf hefyd yn pryderu y bydd cyflenwad ac argaeledd aelodau panel â'r sgiliau priodol braidd yn gyfyngedig o gofio nifer ac amseriad yr asesiadau panel sy'n ofynnol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Rwy'n sylwi bod adran 93 yn cynnwys y ddarpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yngylch penodi paneli. Gellid defnyddio rheoliadau o'r fath i bennu gofynion priodol o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad aelodau panel. Serch hynny, rwy'n amheus a fyddai cronfa ddigonol o aelodau panel posibl â'r cymwysterau a'r gallu priodol ar gael.

## Archwiliadau arbennig

9. Mae'n ymddangos bod darpariaethau'r Bil ar gyfer archwiliadau arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol (adrannau 94 i 99) yn briodol yn eu hunain. Er ei bod yn ymddangos bod y darpariaethau newydd hyn yn debyg, yn gyffredinol, i ddarpariaethau archwiliadau arbennig Mesur 2009, gan mai

pwyslais yr archwiliadau yw asesu a yw cynghorau yn cyflawni gofynion perfformiad adran 88, yn hytrach na gofynion amrywiol Rhan 1 o Fesur 2009, mae'r darpariaethau newydd hyn yn ofynnol. A dylai pwyslais cliriach y darpariaethau newydd fod yn ddefnyddiol wrth bennu cwmpas a chyflawni archwiliadau.

10. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu mai derbyn adroddiad ar archwiliad arbennig, o dan adran 128 o'r Bil, fydd yr amod cyntaf (ynghyd â'r dewis amgen o gais diddymu) ar gyfer Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau ailstrwythuro. Rwy'n sylweddoli nad yw hwn yn sbardun syml, gan mai'r pedwerydd amod yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon nad yw llywodraeth leol effeithiol a chyfleus yn debygol o gael ei chyflawni yn yr ardal oni bai y gwneir rheoliadau ailstrwythuro ganddi. Er hynny, â chysylltiad o'r fath â rheoliadau ailstrwythuro, rwy'n credu bod perygl gwirioneddol y bydd y trefniadau yn effeithio ar annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol gan danseilio effeithiolrwydd archwilio ehangach a ffydd a hyder y cyhoedd yn y dull o reoli arian cyhoeddus.
11. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud cais am archwiliad o gyngor y bu damcanu am ailstrwythuro posibl ynddo. Yn dilyn cais, gallai'r Archwilydd Cyffredinol fod mewn sefyllfa anodd: cael ei ystyried yn asiant ar ran Gweinidogion Cymru wrth hwyluso newid a hynny yn groes i wrthwynebiad lleol neu o ochri â'r buddiannau lleol yn groes i ddymuniadau Gweinidogion Cymru.
12. Nid wyf ychwaith o'r farn bod yr amodau a nodir yn adran 128 yn ddigonol nac yn ddefnyddiol i ddarparu sail gadarn ar gyfer penderfynu ar reoliadau ailstrwythuro. Heblaw am adroddiadau archwilio arbennig (neu geisiadau diddymu), yr unig bethau a geir yw ymgynghoriad, rhybudd a dyfarniad Gweinidogion Cymru. Mae'n ymddangos bod canolbwytio ar yr amodau hyn yn debygol o arwain at esgeuluso ystyriaeth o faterion perthnasol ehangach, megis barn poblogaeth yr ardal.
13. Drwy gynnwys archwiliadau arbennig yn amod ar gyfer gwneud rheoliadau ailstrwythuro, gall cynnal archwiliad arbennig fod yn broses eithaf anodd. Ceir y posibilrwydd o lai o gydweithredu a her eang i'r broses archwilio, a all ymestyn i adolygiad barnwrol. Byddai hyn yn arwain at gostau sylweddol i Swyddfa Archwilio Cymru.
14. Rwy'n pryderu hefyd fod y darpariaethau ar gyfer ffioedd yn adran 100 o'r Bil yn cynnwys gwaharddiad llym ar ffioedd sy'n uwch na chost lawn y gweithgareddau y maent yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn ychwanegu at y problemau presennol yn sgil Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n gwahardd ffioedd rhag bod yn uwch na chost lawn bob swyddogaeth ym mhob corff y maent yn berthnasol iddynt. Gan fod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys llawer o wahanol swyddogaethau statudol—mwy na dwsin yn achos un archwiliad llywodraeth leol—mae hyn yn arwain at faich gweinyddol sylweddol o ran amser yn cofnodi ac yn anfonebu. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid yn rhoi ystyriaeth ar wahân i'r rheol "dim mwy na'r gost lawn", sydd ar hyn o bryd yn llywodraethu'r broses

o godi ffioedd archwilio, ac a ddylid ei disodli â gofyniad mwy ymarferol i ffioedd a gwariant gyfateb â'i gilydd yn fras dros amser er mwyn lleihau cymhlethdod ffioedd a'r modd o'u gweinyddu.

### Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr

15. Mae ystyried yr angen i gydgysylltu yn amlwg yn ddymunol. Fodd bynnag, mae'r gofynion eang yn adran 118 o'r Bil, yn arbennig y gofyniad i lunio amserlenni ar gyfer pob cyngor i arfer swyddogaethau, yn or-gyfarwyddol, yn anymarferol yn gyffredinol ac yn ddiangen. Er enghraifft, mae llawer o arolygiadau gan AGC ac Estyn yn rhai byr-rybudd er mwyn bod yn effeithiol, ac felly nid yw'n briodol pennu amserlen benodol ar gyfer y rhain. Mae gennyf gytundeb strategol ar waith eisoes ag AGC, Estyn ac AGIC er mwyn ceisio cydweithredu a chydgyssylltu trwy "Arolygu Cymru". Mae hwn yn gweithredu'n dda ar lefel strategol a gweithredol, ac rwyf felly o'r farn bod cyfarwyddyd adran 118 yn ddiangen.
16. Rwyf yn pryeru hefyd y gall adran 118 fod y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae hyn oherwydd bod yr adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried yr angen i gydweithredu wrth arfer swyddogaethau, sy'n gyfystyr ag addasu trwy gyfrwng diwygiad ymhlyg i adran 8(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Mae Adran 8(1) o Ddeddf 2013 yn nodi bod gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr wrth arfer ei swyddogaethau ac nad yw'n destun cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Mae'n ymddangos felly fod adran 118 yn groes i'r gwaharddiad a geir yn adran 108(6)(a) a pharagraff 5 o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n diogelu adran 8(1) o Ddeddf 2013 rhag diwygiadau. Rwy'n cydnabod bod adran 118 o'r Bil yn rhannol yn ailddatganiad o adran 23 o Fesur 2009. Fodd bynnag, mae Deddf 2013 yn ddilynol i Fesur 2009, felly mae ei darpariaethau yn drech—nid oedd adran 23 o Fesur 2009 bellach yn ddilys yn dilyn cychwyn Deddf 2013, felly ni ellir ei hailddatgan.

### Pŵer cymhwysedd cyffredinol

17. Yn fy marn i, mae'n briodol darparu pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol, mewn egwyddor. Bu dryswch mewn cynghorau cymuned ac awdurdodau unedol yng Nghymru ynghylch a yw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol a ddarperir gan Ddeddf Lleoliaeth 2010 yn berthnasol. Dylai darpariaeth yng Nghymru gynorthwyo i atal dryswch o'r fath yn y dyfodol.
18. Fodd bynnag, rwyf o'r farn na ddylai'r disgwyliadau ar gyfer hyblygrwydd y pŵer cymhwysedd cyffredinol fod yn rhy uchel. Nid yw'n bŵer i wneud unrhyw beth y gall unigolion ei wneud yn unig; mae'n destun cyfyngiadau sylweddol, megis terfynau ar daliadau, cyfyngiadau ar bŵer cyn cychwyn, cyfyngiadau cyn ac ar ôl cychwyn, ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Bydd angen i awdurdodau dreulio amser arbenigol yn gwirio cyfyngiadau. Wedi dweud hynny, mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn darparu rhywfaint o ryddid ychwanegol a all fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau.

19. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu rhywfaint, gan nad oes llawer o gynghorwyr arbenigol fforddiadwy â chymwysterau priodol mewn cyfraith gyhoeddus ar gael i gynghorau cymuned, y gall fod cynnydd mewn prosiectau amhriodol a gynhelir gan gynghorau o'r fath. Mae'n bosibl y bydd y pwylgor yn ymwybodol fy mod wedi cyflwyno sawl adroddiad er budd y cyhoedd yn 2019 ynghylch gwariant anghyfreithiol ar brosiectau.
20. Rwy'n sylwi bod adran 43 o'r Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned ystyried canllawiau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol. Rwyf o'r farn bod hyn yn briodol: bydd canllawiau o'r fath yn bwysig iawn, gan nad yw llawer o gynghorau cymuned yn gyfarwydd â'r cyfyngiadau cymhwysedd a nodir ym Mhennod 1 o Ran 2 o'r Bil a gan egwyddorion cyfraith gyhoeddus.
21. ran darpariaeth y Bil drafft ar gyfer y defnydd o farn archwilio wrth bennu cymhwysedd cynghorau cymuned (adran 37), dylwn nodi, er bod barn o'r fath yn berthnasol i alluoedd cyrff o ran llywodraethu a rheoli ariannol, nid bwriad gwaith archwilio yw rhoi sicrwydd ynghylch a yw cyngor yn cyflawni gofynion cymhwysedd. Nid yw'r darpariaethau archwilio yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i archwiliadau ymdrin ag addasrwydd o ran cymhwysedd cyffredinol.
22. Os yw barn archwilio i fod yn gwbl briodol o ran pennu a oes gan gyngor gymhwysedd, bydd angen diwygio cwmpas gwaith archwilio. Bydd hyn yn cynyddu ffioedd archwilio cynghorau cymuned (neu bydd angen eu hariannu mewn modd arall). Yn hytrach na gwneud hwn yn ofyniad cyffredinol ar gyfer pob archwiliad, gallai fod yn fwy cost-effeithiol pe byddai darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sicrhau adroddiadau penodol ar addasrwydd o ran cymhwysedd. Gellid darparu adroddiadau o'r fath ar sail cytundeb o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

### Cyd-bwylgorau Corfforaethol

23. Mae'n ymddangos i mi fod Cyd-bwylgorau Corfforaethol wedi'u cynnwys yn y diffiniad o gydbwylgorau a nodir yn adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Fodd bynnag, nid yw'r Bil na'r Memorandwm Esboniadol yn gwneud hyn yn glir. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai hyn yn cael ei egluro. O dan unrhyw amgylchiadau, yn enwedig os ydynt yn dal asedau, bydd angen i Gyd-bwylgorau Corfforaethol baratoi cyfrifon ac i'r rhain gael eu harchwilio.
24. Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi fy mod i, a fy rhagflaenydd, wedi nodi sylwadau yn aml ynghylch cymhlethdod y strwythurau a'r camau llywodraethu ar dirwedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Nid wyf yn gwbl glir o'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil, na'r memorandwm esboniadol, a fydd hyn yn gwella neu'n gwaethyg cymhlethdod. Bydd angen ystyried yn ofalus, drwy ganllawiau a rheoliadau, i sicrhau bod cydlyniad, integreiddiad ac effeithlonrwydd priodol wrth arfer y darpariaethau hyn.
25. Priodoldeb pwerau i greu is-ddeddfwriaeth, a goblygiadau ariannol y Bil.

26. Nid yw'n bosibl yn yr amser sydd ar gael i roi sylwadau wedi'u hystyried yn briodol ar briodoldeb pwebau yn y Bil i Weinidogion Cymru greu is-ddeddfwriaeth. Yn yr un modd, nid yw'n bosibl yn yr amser sydd ar gael i hystyried yn briodol oblygiadau ariannol y Bil fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Fe wnaeth, er hyn, geisio darparu sylwadau o'r fath erbyn 3 Ionawr 2020.
27. Hystyried diddordeb y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn materion megis cymhwysedd cyngorau cymuned a fy sylwadau ar y drefn arfaethedig ar gyfer archwiliadau arbennig, rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid.
28. Mae fy nghydweithwyr a minnau yn barod iawn i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth fwrw ymlaen, a gobeithio bod y deunydd hwn o gymorth i chi.

**Yn gywir**



**Adrian Crompton**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

cc: Mr Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid

Mr Nick Ramsay AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**Public Accounts Committee: Inquiry into Waste Management**

**Additional information from Natural Resources Wales: Distributed Modular Gasification technology.**

During the evidence session with Natural Resources Wales on 4 November they agreed to send some additional information on Distributed Modular Gasification technology.

NRW understand that Distributed Modular Gasification (DMG) is an emerging technology for the treatment of waste. It operates in a similar way to a traditional gasification plant. Gasification is an Advanced Thermal Treatment technology that is characterised by the partial oxidation of the feed stock. Oxygen is added, but not in sufficient quantities to allow the substance to be completely oxidised and full combustion to occur. The partial combustion results in the production of 'Syngas' which can be used to substitute natural gas, chemicals, fertilisers, transportation fuels and hydrogen. The gas in the DMG technology is then subjected to further treatment to extract hydrogen for commercial purposes.

Under the Environment Permitting Regulations; certain activities are regulated by Natural Resources Wales for example, Part A(1) installations and Part A(2) installations and Part B activities are regulated by the relevant local authority. The information currently available for this technology does not contain sufficient detail to identify who is the most appropriate regulatory authority.

NRW do not offer an opinion on one type of plant over another. The recently published Waste Incineration and Energy from Waste Best Available Techniques Reference Document sets out minimum standards operators must adhere to. This guidance applies to gasification plants and other emerging technologies, as well as traditional incineration processes. If an application for an Environmental Permit that we are responsible for regulating is received, we would assess technology against the standards set out in the relevant guidance as part of our determination process, in line with the Environmental Permitting Regulations. We will continue to work with local authorities to share technical understanding and ensure an appropriate level of regulation is applied.

The introduction of restrictions on certain types of separately collected materials going to Energy from Waste facilities, such as proposed in the Wales Environment Bill may impact on the viability of this kind of technology. As highlighted in our evidence to the Public Accounts Committee whilst recycling and recovery of

unavoidable waste generated is important, preventing and reusing waste is the most sustainable option. Energy from waste initiatives can form part of an integrated network of waste installations for disposal of residual waste and the recovered energy can make a useful contribution to our energy needs, however they should not be viewed as a substitute for the prevention or minimisation of waste.

December 2019

Shan Morgan  
Ysgrifennydd Parhaol  
Permanent Secretary



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

N Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor  
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

09 Rhagfyr 2019

Anwyl Mr Ramsey,

### Defnydd Mewnol y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 11 Tachwedd fe gynhigiais ddiweddarriad i'r Pwyllgor ar ein gwaith i ddatblygu defnydd y Gymraeg yn fewnol yn Llywodraeth Cymru.

Dros y misoedd diwethaf mae gwaith sylweddol wedi mynd rhagddo i ddatblygu ein polisi yn y maes yma. Erbyn hyn mae strategaeth wedi'i greu ar ffurf drafft a chaiff hwn ei gyflwyno i'r Prif Weinidog a Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol. Byddwn yn mynd ati, unwaith i ni gael eu cydsyniad i ymgynghori gyda'r undebau llafur a'n rhwydweithiau staff i gael eu hymateb ac i ddatblygu'r strategaeth ymhellach. Bydd fy nhîm rheoli wedyn yn trafod y strategaeth er mwyn rhoi sêl bendith terfynol iddo. Yn y cyfamser, mae cynrychiolwyr o blith yr undebau llafur a chynrychiolwyr o'n rhwydweithiau staff wedi bod yn allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r strategaeth o'r dechrau'n deg, ac wedi cyfrannu'n helaeth at y trafodaeth sydd wedi ffurio'r polisi.

Yn ogystal â hyn, bu ffrydiau gwaith yn cwrdd dros y misoedd diwethaf i ddatblygu gwahanol elfennau o'r strategaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ffrwd waith reciwtio, ffrwd waith hyfforddiant, ffrwd waith technoleg gwybodaeth, ffrwd waith newid ymddygiad a ffrwd waith ystadegau a ffactorau allanol. Rydym wedi tynnu ar arbenigedd ar draws y sefydliad i arwain y ffrydiau hyn, ac wrth ddrafftio'r strategaeth derfynol mae'r gwaith yma wedi dod ynghyd.

Canlyniad hyn oll yw ein bod yn datblygu strategaeth fydd yn rhan ganolog o'n strategaeth pobl corfforaethol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, 2020-2025. Bydd y cam



Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289  
[PS.PermanentSecretary@llyw.cymru](mailto:PS.PermanentSecretary@llyw.cymru)  
Gwefan • Website: [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-policy/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-policy/?lang=en>



yma yn gwreiddio'r strategaeth yn ein gweledigaeth ar gyfer y sefydliad yn ehangach, ac yn golygu bydd y Gymraeg yn ganolog i'n penderfyniadau wrth ddatblygu'r gweithlu i'r dyfodol.

Bydd y strategaeth gyntaf yma yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 2025 a fydd yn rhoi cyfle i ni werthuso'r gwaith yn ystod y cyfnod cyntaf hwn, cyn pennu strategaeth newydd ar gyfer y pum mlynedd dilynol. Ond, mae'n gweledigaeth ni'n un hir dymor wrth gwrs. Gyda chymorth ein hystadegwyr a'r ffrwd waith berthnasol, rydym yn edrych hefyd tuag at 2050, i bennu'r cerrig milltir sydd angen eu gosod er mwyn cyrraedd ein nod o drawsnewid arfer weithio'r sefydliad erbyn hynny.

Byddaf yn falch i gyflwyno'r gwaith hyn mewn rhagor o fanylder i'r Pwyllgor yn dilyn ein proses fewnol o dderbyn cydsyniad ac ymgynghori gyda staff. Bydd y strategaeth newydd ar waith erbyn diwedd Ebrill 2020.

Yn gwybod,  
*Shan Morgan*

**Shan Morgan**  
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary  
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

**Shan Morgan**  
Ysgrifennydd Parhaol  
Permanent Secretary



N Ramsay, AC  
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

10 Rhagfyr 2019

*Au wyl Mr Ramsey.*

**At ba ddiben y prynwyd y cyffur gwrthfeirysol Relenza yn 2008/09?**

Mae Relenza yn un o ddau gyffur gwrthfeirysol yn y cyflenwad os digwydd pandemig a fyddai'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i drin unigolion sydd wedi cael eu heintio â feirws y ffliw pandemig, a Tamiflu yw'r llall. Mae Relenza a Tamiflu, ill dau, yn angenrheidiol oherwydd rydym wedi gweld bod gan rai mathau o'r ffliw ymwrthedd i Tamiflu. Felly, er mai ail ddewis yw Relenza i bob pwrpas, mae'n angenrheidiol cael cyflenwad ohono rhag ofn y daw mathau penodol o'r ffliw yn fwy cyffredin nag eraill mewn pandemig.

Y rhagdybiaethau clinigol yw y byddai cyffuriau gwrthfeirysol ar gyfer rhoi triniaeth mewn pandemig yn arwain at ostyngiad o 50% yn y tebygolrwydd y bydd unigolion yn cael eu hanfon i'r ysbyty neu'n marw. Byddai'r cyffuriau hyn yn cael effaith gymedrol ar y raddfa drosglwyddo hefyd, a fyddai'n cyd-fynd â gostyngiad o 60% o ran pa mor heintus yw'r ffliw o ddechrau'r driniaeth, gyda'r driniaeth yn dechrau 24 awr ar ôl y symptomau cyntaf.

Gobeithio bod hyn yn ymateb i'ch pryderon.

*Yn gwybod,  
Shan Morgan*

**Shan Morgan**  
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary  
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289  
PS.PermanentSecretary@gov.wales  
Gwefan • Website: [www.gov.wales](http://www.gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-policy/?skip=1&lang=cy>

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. <https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-policy/?lang=en>

# Eitem 2.8

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol  
Economy, Skills and Natural Resources Group

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd - Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd,  
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Gadeirydd

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 18 Tachwedd 2019, cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor fel a nodir isod.

***Y Bwletin Ystadegau Gwastraff Trefol diweddaraf i alluogi Aelodau i weld y data diweddaraf ar faint o wastraff a deunyddiau y gellir eu hailgylchu a gasglwyd***

Gellir gweld y ffigurau ailgylchu a gyhoeddwyd ar gyfer chwarter cyntaf 2019 (Ebrill-Mehefin) ar y ddolen ganlynol. Ar 67%, mae'r gyfradd ailgylchu yr uchaf ar gyfer ailgylchu trefol chwarterol i'w gofnodi erioed yng Nghymru.

<https://llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-i-mehefin-2019? ga=2.7278192.37644039.1575993070-275369678.1569850781>

Rwyf hefyd yn atodi dolen at y data ailgylchu ystadegol blynnyddol ar gyfer 2018-19.  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/llesiant-cymru-2018-474.pdf>

***Manylion y dull a gymerwyd gan Gyngor Abertawe wrth gyhoeddi hysbysebion i ddeiliad tai o dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990***

Mae'n bosibl gweld manylion cynllun "Nid fan hyn" Cyngor Abertawe, gan gynnwys y daflen sy'n cael ei defnyddio gan y Cyngor, drwy'r ddolen ganlynol.

<https://www.abertawe.gov.uk/nidfanhyn>

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Er gwybodaeth, rwyf hefyd yn atodi dolen at erthygl am y cynllun a ymddangosodd yn The Guardian yn gynharach eleni.

<https://www.theguardian.com/environment/2019/mar/10/rubbish-police-check-bin-bags-drive-up-recycling-rates-swansea-fines>

Mae croeso ichi gysylltu os y gall fy nhîm neu minnau helpu gydag unrhyw beth arall.

Gyda phob dymuniad da dros yr âyl.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**

Cyfarwyddwr Cyffredinol  
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

# Eitem 29

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/  
Prif Weithredwr GIG Cymru  
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/  
NHS Wales Chief Executive  
Health and Social Services Group



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd  
Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Mr Ramsay,

## Rheoli Meddyginaethau

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror, gofynnnoch i mi ysgrifennu at y Pwyllgor eto i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar nifer o ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Ymchwiliad Rheoli Meddyginaethau.

Mae'r ddogfen amgaeedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd y camau gweithredu sy'n weddill.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**

cc: Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Llywodraeth Cymru  
Blwch Postio CGU  
Blwch Postio'r Cabinet



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Pudalen y pecyn 22

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel

[Andrew.Goodall@llyw.cymru](mailto:Andrew.Goodall@llyw.cymru)

Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

# Ymateb i'r argymhellion a gynhwysir yn adroddiad Pwyllgor

## Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n dwyn y teitl Rheoli Meddyginaethau



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru	Diweddariad	Cwblhawyd/ Parhaus
<p><b>Argymhelliad 1.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad blynnyddol yn manylu gwybodaeth am welliannau wrth reoli meddyginaethau ar draws y Byrddau lechyd, i gynyddu atebolwydd a sicrhau bod proffil rheoli meddyginaethau yn parhau i fod yn uchel ar agenda Byrddau lechyd.</p> <p><b>Derbyn</b></p>	<p>Nid ydym yn ystyried y broses o gyhoeddi adroddiad blynnyddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fel y dull mwyaf priodol o gyflawni amcanion y Pwyllgor. Fel dewis amgen i gyhoeddi adroddiad blynnyddol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, byddwn yn gofyn i Grŵp Strategaeth Meddyginaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wneud gwaith i lywio a datblygu ei adroddiad blynnyddol cyfredol ac adrodd chwarterol ar gynnydd yn erbyn dangosyddion rhagnodi cenedlaethol i sicrhau bod y cynwys a'r fformat yn fwy perthnasol a hygrych i aelodau Bwrdd cyrff y GIG.</p> <p>Caiff y gwaith hwn ei gwblhau mewn pryd ar gyfer cyhoeddi adroddiad blynnyddol AWMSG ar gyfer 2018-19.</p> <p>Yn ogystal, byddwn yn parhau i ddatblygu dangosyddion rheoli meddyginaethau fel rhan o Fframwaith Cyflawni GIG Cymru</p>	<p>Ysgrifennodd y Prif Swyddog Fferyllol a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol at Brif Weithredwyr y byrddau iechyd ar 16 Hydref, i'w hysbysu bod yr adroddiadau wedi'u cyhoeddi ar wefan Uned Cymorth Rhagnodi Dadansoddol Cymru i'r GIG (WAPSU)</p> <p><a href="https://www.awtcc.org/annual-prescribing-reports-2018%20%932019">https://www.awtcc.org/annual-prescribing-reports-2018%20%932019</a>.</p> <p>Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi crynodeb o gynnydd pob bwrdd iechyd i wella'r broses ragnodi yn erbyn wyth mesur yn y pedwar maes â blaenoriaeth a nodir gan Lywodraeth Cymru, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>presgripsiynu diogel;</li> <li>stiwardiaeth gwrthficrobaidd;</li> <li>effeithlonwydd ariannol; a</li> </ul>	<p>Cwblhawyd</p> <p>(Bydd WAPSU yn parhau i ddarparu'r adroddiad hwn yn flynyddol)</p>

<b>Argymhelliad</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/ Parhaus</b>
	ac yn rhoi'r atebolrwydd o ran perfformiad yn erbyn y fframwaith ar gyrrf GIG.	<p>mynediad at feddyginaethau. Mae adroddiad unigol cymharol ar gael ar gyfer pob bwrdd iechyd, sy'n nodi eu safle a'u cynnydd ers y flwyddyn flaenorol o gymharu â'r byrddau iechyd eraill, yn erbyn cyfres o fesurau cyffredin</p> <p>Bwriad yr adroddiadau yw rhoi cipolwg ar gynnydd y byrddau iechyd, gan roi crynodeb o ansawdd a diogelwch presgripsiynu yn erbyn nifer o fesurau. Yn eu llythyr at y Prif Weithredwyr, nododd y Prif Swyddog Fferyllol a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol mai'r disgwyliad sylfaenol ym mhob achos fyddai bod yr adroddiadau'n cael eu dosbarthu i aelodau'r bwrdd, ac yn cynnig cyfleoedd iddyn nhw neu i'r pwylgor Ansawdd a Diogelwch, graffu ar y cynnwys.</p>	

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
<p><b>Argymhelliaid 3.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pennu cynllun i wneud y defnydd gorau o adnoddau fferyllfeydd, gan gynnwys datblygu modiwlau i'w cyflenwi fel rhan o Dewis Fferyllfa a galluogi fferyllwyr annibynnol. Dylai'r cynllun hwn adeiladu ar yr argymhellion yn adroddiad y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.</p> <p><b>Derbyn</b></p>	<p>Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a byrddau iechyd i ddatblygu modiwlau eraill fel rhan o Dewis Fferyllfa sy'n cefnogi fferyllwyr cymunedol sy'n darparu amrywiaeth gynyddol o wasanaethau clinigol. I'r perwyl hwnnw, mae modiwlau eraill yn cael eu datblygu o fewn Dewis Fferyllfa i gefnogi'r gwasanaeth atal cenhedlu brys cenedlaethol a gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf gan fferyllfeydd cymunedol. Bwriedir i'r ddua fodiwl fod ar gael yn diweddarach yn 2018-19. Yn ogystal â modiwlau sy'n cefnogi gwaith comisiynu gwasanaethau, mae'r rhaglen Dewis Fferyllfa yn cael ei datblygu i wella cyfathrebu rhwng fferyllfeydd cymunedol a darparwyr eraill y GIG. Ymhliith y datblygiadau hyn mae trosglwyddo llythyrau electronig o fferyllfeydd i feddygon teulu a gofal eilaidd (i'w cyflawni erbyn mis Mawrth 2019), a systemau i ganiatáu i wasanaeth 111 GIG Cymru atgyfeirio cleifion priodol at fferyllfa gymunedol.</p> <p>Mae rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynnyddoedd diwethaf, wedi'i hwyluso gan</p>	<p>Mae cyllid gwerth £0.7m yn parhau i fod ar gael i fyrrdau iechyd o dan y Fframwaith Contract Fferylliaeth Gymunedol eto yn 2019-20 i gefnogi safleoedd rhagnodi annibynnol presennol a chynyddu nifer y dulliau braenaru rhagnodi annibynnol ledled Cymru.</p> <p>Mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru wedi cytuno ar fanyleb gwasanaeth, ac aeth y safleoedd braenaru rhagnodi annibynnol cyntaf yn fyw ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Hydref 2019. Disgwylir i wasanaethau mewn byrddau iechyd eraill ddechrau cyn diwedd 2019-20 pan fydd fferyllwyr wedi cwblhau eu hyfforddiant rhagnodi annibynnol.</p> <p>Yn ogystal â'r 45 o fferyllwyr a ddechreuodd ar hyfforddiant rhagnodi</p>	<p>Parhaus - cyllid yn cael ei ddarparu hyd at fis Mawrth 2020</p>

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
	<p>y cynnydd mewn swyddi ym mhactisau meddygon teulu. Ym mis Ionawr 2018 ym maes gofal sylfaenol, rhoddodd 65 o fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol 50,484 o bresgripsiynau o 111 o bractisau meddygon teulu. Dyma gynnydd o 150 y cant yn nifer y fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n weithgar, cynnydd o 640 y cant yn nifer y presgripsiynau gan fferyllwyr-ragnodwyr a chynnydd o 171 y cant yn nifer y practisau meddygon teulu sy'n defnyddio fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn y ddwy flynedd ers mis Ionawr 2016.</p> <p>Ym mis Ebrill, cadarnhawyd cyllid er mwyn i hyd at 100 o fferyllwyr cymunedol ymgymryd â chyrsiau rhagnodi annibynnol yn y ddwy flynedd nesaf ac i ddarparu cyllid i fyrrdau iechyd ar gyfer cefnogi'r gwaith o sefydlu hyd at 40 o safleoedd braenaru ar gyfer presgripsiynau annibynnol mewn fferyllfeydd cymunedol.</p> <p>Byddwn yn gofyn i Bwyllgor Fferyllol Cymru weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, i ddatblygu cynllun sy'n</p>	<p>annibynnol yn 2018-19, mae cyllid ar gael i gefnogi hyd at 50 yn rhagor yn 2019-20.</p> <p>Mae gwasanaeth Dewis Fferyllfa bellach ar gael yn 98% o fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau newydd megis y gwasanaeth profi a thrin dolur gwddf newydd.</p> <p>Mae Pwyllgor Fferyllol Cymru wedi cwblhau ei waith o ddisgrifio uchelgeisiau'r proffesiwn fferyllol ar gyfer rolau'r dyfodol. Mae'r adroddiad <a href="#"><u>Fferylliaeth: Cyflawni Cymru lachach</u></a> yn disgrifio'r camau y bydd y proffesiwn fferyllol yn eu cymryd rhwng nawr a 2030. Mae'r Gweinidog iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno i sefydlu Bwrdd Cyflawni i gydlynú'r camau angenheidol o bob rhan o'r</p>	

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
	<p>disgrifio rolau gweithwyr fferyllol proffesiynol yng Nghymru yn y dyfodol a'r camau i'w cymryd gan yr holl randdeiliaid er mwyn manteisio i'r eithaf ar y defnydd ohonynt. Caiff y cynllun ei gwblhau ddechrau 2019-20.</p>	<p>proffesiwn fferyllol yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn gynnar yn 2020.</p>	
<b>Argymhelliaid 6.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r contract fferyllfa gymunedol i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol i wireddu potensial llawn y sector fferyllol a gwreddu'r nod o symud o gyfres o drefniadau yn seiliedig ar nifer i ansawdd, a gweithredu amserlenni.  <b>Derbyn</b>	<p>Ym mis Hydref 2016, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau contract newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol sy'n sicrhau yn y dyfodol y byddant yn darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau sy'n canolbwntio ar elfennau clinigol ac yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd gwasanaethau. Yn 2017-18, cyflwynwyd trefniadau contract newydd a oedd yn cynnwys 1) cyllid cynyddol ac wedi'i neilltuo ar gyfer comisiynu gwasanaethau clinigol ychwanegol yn lleol gan fyrrdau iechyd; 2) cyllid i gefnogi cydweithredu rhwng fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill; a 3) cynllun ansawdd a diogelwch newydd ar gyfer fferyllfeydd cymunedol. Cafodd y newidiadau eu cylido drwy ailddosbarthu £3.5 miliwn o gyllid contract</p>	<p>Gwelwyd cynnydd o 130% yn y cyllid i gefnogi'r gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau clinigol sy'n ychwanegu gwerth gan fferyllfeydd cymunedol ers 2016-17 (o £3.9m i £9.0m erbyn diwedd 2019-20).</p> <p>Mae hyn wedi arwain at fferyllfeydd yn darparu ystod ehangach o wasanaethau, a mynediad mwy cyson at wasanaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu gan gynnwys gwasanaethau cenedlaethol sy'n ymwneud ag anhylderau cyffredin, brechiad rhag y ffliw a rhoi'r gorau i smygu, sydd bellach</p>	Cwblhawyd

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
	<p>o drefniadau sydd wedi'u llywio gan faint (h.y. rhagnodi) i'r elfennau newydd sy'n canolbwytio ar ansawdd.</p> <p>Ar gyfer 2018-19, daethpwyd i gytundeb â Fferylliaeth Gymunedol Cymru i ailddosbarthu £3 miliwn pellach i gefnogi comisiynu gwasanaethau pellach, i gryfhau ac ymestyn cydweithredu a chynlluniau ansawdd a diogelwch ac i ddatblygu'r gweithlu fferylliaeth gymunedol.</p> <p>Byddwn yn parhau i bontio i'r trefniadau contract newydd ar gyfer fferylliaeth gymunedol drwy negodiadau blynnyddol, a bydd y trefniadau newydd ar waith yn llawn erbyn diwedd 2020-21.</p>	<p>ar gael fel mater o drefn ym mhob bwrdd iechyd, yn ogystal â gwasanaethau braenaru Rhagnodi Annibynnol trawsnewidiol, a fydd yn cychwyn yn 2019-20.</p> <p>Erbyn mis Mawrth 2020, bydd Llywodraeth Cymru wedi ariannu hyfforddiant i fwy na 80 o fferyllwyr cymunedol i fod yn ragnodwyr annibynnol, er mwyn gwella mynediad at driniaeth ar gyfer ystod ehangach o fân anhwylderau, a darparu dulliau atal cenhedlu rheolaidd o fferyllfeydd cymunedol ar draws Cymru.</p> <p>Mae newidiadau i'r cydweithrediad fferyllol a chynlluniau ansawdd a diogelwch, a gyflwynwyd yn 2017-18, yn parhau i roi mwy o gyfleoedd i fferyllwyr weithio gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i wella profiad y claf a gwella'r</p>	

Argymhelliaid	Ymateb Llywodraeth Cymru	Diweddarriad	Cwblhawyd/ Parhaus
		broses o roi a defnyddio cyffuriau mewn modd diogel ac effeithiol.	
<p><b>Argymhelliaid 8.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i ffyrdd o elwa ar yr arbenigedd academaidd yng Nghymru i ddeall graddfa Derbyniadau sy'n Gysylltiedig â Meddyginaeth a sut i'w lleihau.</p> <p><b>Derbyn</b></p>	<p>Ym mis Ionawr 2018, sefydlodd y Prif Swyddog Fferyllol weithgor oes fer (SLWG) sy'n cynnwys arbenigwyr diogelwch meddyginaethau ledled Cymru i gynghori ar y dull gweithredu cyffredinol a'r rhaglen angenreidiol i lywio gwelliannau ym maes diogelwch meddyginaethau yn y GIG yng Nghymru. Cynhaliodd y Gweithgor, sy'n dod ag arbenigwyr ynghyd o bractisau a'r byd academaidd, gyfarfodydd ym mis Ionawr a Mawrth, a bwriedir cynnal cyfarfodydd eraill yn 2018.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r Gweithgor yn archwilio ffynonellau data, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i dderbyniadau i ysbytai, er mwyn pennu cyfres briodol o fesurau ar gyfer niwed sy'n gysylltiedig â meddyginaethau fel ffocws ar gyfer rhaglen waith i wella diogelwch meddyginaethau yng Nghymru.</p> <p>Rydym yn cydnabod bod niwed sylweddol yn deillio o dderbyniadau sy'n gysylltiedig</p>	<p>Mewn ymateb i argymhellion y Gweithgor Bywyd Byr (SLWG), caffodd "rheoli meddyginaethau mewn modd mwy diogel" ei gynnwys fel un o'r chwe maes ansawdd o fewn Cymru lachach.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gwelliant Cymru a phartneriaid yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac Uned Cymorth Rhagnodi Dadansodol Cymru (WAPSU) i roi elfennau o raglen ar waith i gefnogi'r gwaith o wella meddyginaethau mewn modd diogel. Mae'r rhain yn cynnwys:</p>	Cwblhawyd

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
	<p>â meddyginaethau (MRAs) ond rydym yn pryderu y byddai ffocws ar feintoli MRAs <i>post hoc</i> yn tynnu oddi wrth gamau i atal niwed cyn iddo ddigwydd. Mae'n anodd canfod MRAs oherwydd presenoldeb ffactorau dryslyd mewn llawer o achosion, ac mae asesiadau cadarn o nifer yr achosion o MRAs wedi bod yn gyfyngedig i astudiaethau ymchwil. Fodd bynnag, mae gennym ddealltwriaeth dda o'r meddyginaethau a'r sefyllfaoedd a gysylltir amlaf ag MRAs; y flauenoriaeth ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginaethau fyddai ymdrin â hyn.</p> <p>Bydd y Gweithgor yn gorffen ei waith erbyn mis Hydref 2018, ac ar ôl hynny bydd yn cyflawni ei rôl fel grŵp llywio'r rhaglen genedlaethol ar gyfer diogelwch meddyginaethau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Datblygu dangosfwrdd diogelwch meddyginaethau sy'n cyfuno data ar dderbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig â meddyginaethau ac yn ymwneud â gwaedu, anafiadau aciwt ar yr arenau a chwympiadau, gyda data ar nifer y ffactorau risg o niwed fesul bwrdd iechyd a chlwstwr gofal sylfaenol (ar gael ers haf 2019);</li> <li>- Mwy o ffocws ar leihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginaethau mewn contractau gofal sylfaenol drwy'r Cynllun Ansawdd a Diogelwch ar gyfer fferyllfeydd cymunedol a'r Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd ar gyfer meddygon teulu (gweithredwyd yn 2017 a 2018);</li> </ul>	

Argymhelliaid	Ymateb Llywodraeth Cymru	Diweddariad	Cwblhawyd/Parhaus
		<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cydweithrediad cenedlaethol wedi'i gynllunio ar gyfer diogelwch meddyginaethau a gyflawnir gan Gwelliant Cymru i oruchwyllo gweithgarwch gwella ansawdd gan sefydliadau'r GIG, gyda'r nod o leihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginaethau (i'w lansio ym mis Tachwedd 2019).</li> </ul>	
<b>Argymhelliaid 12.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad ar arferion gorau ar archebu presgripsiynau amlroddadwy gan grwpiau clwstwr mewn lleoliadau cartrefi gofal i helpu i lywio polisiau a chamau gweithredu ar bresgripsiynau amlroddadwy.  Ac  <b>Argymhelliaid 13.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod	<p>Roedd gwaith y grŵp gweithredu rhagnodi darbodus (PPIG) yn hanfodol wrth nodi meysydd lle y gellid gwella systemau rhagnodi amlroddadwy. Ar ôl i swyddogion Llywodraeth Cymru roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2016, disodlwyd PPIG a throsglwyddwyd y cyfrifoldeb dros weithredu argymhellion y grŵp a phrofi'r dulliau amrywiol a argymhellwyd i wella rhagnodi amlroddadwy a lleihau gwastraff i grŵp cymheiriad Prif Fferyllwyr y GIG.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu, o bob bwrrd iechyd a Fferylliaeth Gymunedol Cymru, tystiolaeth o</p>	<p>Mae Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan wedi casglu tystiolaeth am ganlyniadau amrywiol fentrau a gynhelir yng Nghymru i wella'r broses o roi presgripsiynau amlroddadwy, gan gynnwys gweithio gyda chartrefi gofal. Mae hyn wedi cynnwys ymgysylltu â byrddau iechyd a Fferylliaeth Gymunedol Cymru i nodi engrheiftiau addas i'w cynnwys. Mae'r gwaith hwn wedi dod i ben, a bydd ar gael i'r holl fyRDDau iechyd</p>	Cwblhawyd

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
<p>Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diweddaraf am waith y grŵp rhagnodi darbodus mewn perthynas â'i waith ar y modelau amrywiol ar gyfer systemau presgripsiynau amlroddadwy ym mis Medi 2018 er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd ar hyn.</p> <p><b>Derbyn</b></p> <p><b>Argymhelliaid 14.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso'r gwaith o gyflwyno'r system Trawsgrifio Meddyginaeth ac e-Ryddhau er mwyn ystyried cynnydd a manteision y dull hwn.</p> <p><b>Derbyn</b></p>	<p>ganlyniadau darnau amrywiol o waith sy'n cael eu gwneud er mwyn gwella rhagnodi amlroddadwy, gan gynnwys gwaith i wella'r broses o archebu presgripsiynau amlroddadwy o fewn cartrefi gofal, a darparu diweddariad ar y gwaith hwn i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2019.</p>	<p>ying Nghymru cyn diwedd y flwyddyn galendr.</p>	
	<p>Mae llawer o dystiolaeth ar gael sy'n dangos bod perygl mawr o gam-gyfathrebu a gwneud newidiadau anfwiadol i feddyginaethau cleifion pan fyddant yn symud rhwng darparwyr gofal, ac mae hyn yn peri problemau sylweddol. Drwy wella'r broses o drosglwyddo gwybodaeth am feddyginaethau ar draws pob lleoliad gofal, gellid lleihau nifer yr achosion o niwed y gellid ei osgoi i gleifion, gwella diogelwch cleifion a chyfrannu at leihau nifer y derbyniadau ac aildderbyniadau sy'n ymwneud â meddyginaethau y gellid eu hosgoi.</p> <p>Cynhaliwyd gwerthusiadau o fanteision y system o Drawsgrifio Meddyginaethau ac</p>	<p>Mae'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth Trawsgrifio Meddyginaethau ac e-Ryddhau (MTeD) ar draws GIG Cymru, a'r gwaith o'i werthuso, yn cael eu monitro fel rhan o'r adroddiadau cynnydd rheolaidd.</p> <p>Mae MTeD wedi cael ei gyflwyno ar draws y rhan fwyaf o Fyrrdau Iechyd Lleol; ac mae gweddill y Byrddau Iechyd Lleol yn gweithredu systemau presennol ar gyfer rhyddhau meddyginaethau,</p>	Cwblhawyd

<b>Argymhelliaid</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/Parhaus</b>
	<p>e-Ryddhau (MTeD) yn flaenorol gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)<sup>1</sup> a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<sup>2</sup> a ddangosodd welliannau o ran ansawdd ac amseriad rhannu gwybodaeth am ryddhau gyda meddygon teulu cleifion.</p> <p>Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor mae argaeedd MTeD ar draws cyrff y GIG yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol gyda'r system MTeD yn cael ei gweithredu mewn pum bwrdd iechyd a datrysiau e-ryddhau a oedd yn bodoli eisoes ar waith mewn dau fwrdd iechyd. Mae gwelliannau pellach i'r system MTeD yn cael eu cynllunio a fydd wedyn yn hwyluso'r broses o'i gweithredu yn y ddau fwrdd iechyd sy'n weddill ar ddiwedd 2018-19.</p> <p>Rydym yn disgwyl i NWIS a'r byrddau iechyd gael trefniadau gwerthuso priodol yn eu lle sy'n sicrhau bod manteision disgwyliedig y system MTeD yn cael eu</p>	ond yn gweithio i roi system MTeD ar waith.	

<sup>1</sup> Gwasanaeth Gwybodeg GIG. Adroddiad ar Werthusiad y Prosiect Trawsgrifio ac e-Ryddhau Meddyginaethau. Ionawr 2014

<sup>2</sup> Davies C. Llythyr Cyngor y Prosiect e-Ryddhau – Adroddiad Diwedd y Prosiect. Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Tachwedd 2017.

Argymhelliaid	Ymateb Llywodraeth Cymru	Diweddariad	Cwblhawyd/Parhaus
	gwireddu. Byddwn yn gweithio gyda NWIS i sicrhau bod y mesurau gwerthuso hyn yn rhan o adroddiadau cynnydd arferol mewn perthynas â chyflwyno MTeD.		
<b>Argymhelliaid 16.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel rhan o waith comisiynu a chyflwyno system e-ragnodi newydd Llywodraeth Cymru, ei bod yn datblygu cynllun gweithredu ategol i helpu i gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen i gyd-fynd â chyflwyno system newydd  Ac	<p>Mae NWIS wedi sefydlu prosiect Rhagnodi Electronig, Fferylliaeth a Gweinyddu Meddyginaethau mewn Ysbytai Cymru (WHEPPMA) i ddatblygu a gweithredu'r cynllun cenedlaethol ar gyfer rhagnodi ym maes gofal eilaidd.</p> <p>Mae'r tîm prosiect yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar hyn o bryd i gwblhau'r achos busnes ar gyfer caffael system fferylliaeth newydd mewn ysbytai a datrysiaid rhagnodi electronig a gweinyddu meddyginaethau. Caiff yr achos busnes ei ystyried gan Lywodraeth Cymru maes o law. Yn amodol ar gwblhau achos busnes boddhaol, disgwylir i'r gwaith o gaffael y systemau hyn gychwyn yn ystod 2018-19 ac y byddant ar waith ar ddechrau 2019. Bydd y cynllun gweithredu, gan gynnwys y camau sydd eu hangen gan gyrff y GIG i gyflawni'r newid busnes angenrheidiol i elwa i'r eithaf ar fanteision e-ragnodi, a'r cerrig milltir, yn cael eu sefydlu gan NWIS</p>	<p>Mae'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer prosiect Gweinyddu Rhagnodion Electronig, Fferyllfeydd a Meddyginaeth Ysbytai Cymru (WHEPPMA) wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac mae'n mynd drwy'r broses graffu ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Achos Busnes Amlinellol e-Ragnodi yn cael ei ddatblygu gan WHEPPMA, a disgwylir iddo gael ei gyflwyno erbyn mis Rhagfyr 2019.</p>	Parhaus
<b>Argymhelliaid 17.</b> Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu ei chynllun gweithredu a cherrig milltir allweddol ar gyfer y system rhagnodi a rheoli meddyginaethau yn electronig (EPMA) gyda'r Pwyllgor.			

<b>Argymhelliad</b>	<b>Ymateb Llywodraeth Cymru</b>	<b>Diweddariad</b>	<b>Cwblhawyd/ Parhaus</b>
<b>Derbyn</b>	drwy'r prosiect WHEPPMA ac yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes, byddwn yn gofyn i NWIS rannu eu cynlluniau â'r Pwyllgor.		

# Eitem 2.10

**Tracey Burke**

Cyfarwyddwr Cyffredinol - Director General  
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Education and Public Services Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd CF99 1NA

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Mr Ramsay

## Pwynt Gweithredu – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Cyngorau Tref a Chymuned

Pan oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Tachwedd, gofynnwyd i mi ddarparu manylion am faint o seddi di-ymgeisydd a gafwyd yn etholiadau'r cyngorau tref a chymuned a gynhaliwyd yn 2017.

Yn yr etholiadau diweddaraf i'r cyngorau tref a chymuned a gynhaliwyd yn 2017, o'r 7,954 o seddi cyngor a oedd ar gael:

- cafwyd cystadleuaeth mewn 1,531 (19 y cant) ohonynt
- dim ond un ymgeisydd a safodd mewn 5,075 (64 y cant) ohonynt; ac
- ni chafodd 1,348 (17 y cant) ohonynt eu llenwi.

Yn gywir



Tracey Burke



BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047  
[tracey.burke@gov.wales](mailto:tracey.burke@gov.wales)

Gwefan • website: [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding

Cadeiryddion y Pwyllgorau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Rhagfyr 2019

Annwyl Cadeirydd,

### **Y Pwyllgor ar Ddiwygiao Etholiadol y Cynulliad**

Fel y gwyddoch, cafodd y **Pwyllgor ar Ddiwygiao Etholiadol y Cynulliad** ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Medi 2019. Ei gylch gwaith yw archwilio argymhellion y **Panel Arbenigol ar Ddiwygiao Etholiadol y Cynulliad**. Ryw'n ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i rannu eich barn ar y goblygiadau posibl i bwylgorau'r Cynulliad a allai ddeillio o unrhyw newid ym maint y Cynulliad.

Yn benodol, byddem yn croesawu sylwadau eich Pwyllgor ar y materion a ganlyn:

- Pa un a yw maint cyfredol y Cynulliad wedi arwain at unrhyw oblygiadau neu gyfyngiadau o ran gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn mynd ati i wneud gwaith craffu ar bolisiau, deddfwriaeth a materion ariannol yng nghydestun y materion hynny sydd o fewn eich cylch gwaith.
- Sut y gallai unrhyw newidiadau diweddar neu ddisgwylledig i bwerau neu gyfrifoldebau'r Cynulliad, neu'r cyd-destun cyfansoddiadol ehangach, effeithio ar gylch gwaith eich Pwyllgor neu'r modd yr ydych yn ymgymryd â'ch rôl.
- Pa un a allai cynnydd ym maint y Cynulliad arwain at unrhyw oblygiadau o ran gwaith pwylgorau'r Cynulliad, gan gynnwys y gwasanaethau cymorth y maent yn eu cael.



Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am sut y mae eich Pwyllgor yn asesu effaith ei waith craffu, ac enghreifftiau o waith craffu effeithiol neu enghreifftiau o gyfleoedd a gollwyd. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn **dydd Llun 27 Ionawr 2019**.

Byddaf yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Ionawr 2020 er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor, neu os ydych o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i chi gwrdd â rhywun i drafod y materion hyn, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor, Helen Finlayson drwy anfon neges e-bost at [SeneddDiwygio@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDiwygio@cynulliad.cymru) neu drwy roi galwad ar 0300 200 6341.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AC**  
**Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**  
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**  
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay, AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

23 Rhagfyr 2019

Annwyl Gadeirydd,

**ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS AR BERTHYNAS  
LLYWODRAETH CYMRU Â PINWOOD – Diweddariad ar Gyllideb Buddsoddi yn y  
Cyfryngau a Stiwdios Pinewood**

Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, gwnaethom ymrwymo i roi diweddariad am berfformiad Cronfa Buddsoddi yn y Cyfryngau, a pherfformiad ariannol a rhagamcaniadau incwm ar gyfer Stiwdios Pinewood ym mis Rhagfyr 2019.

Rwy'n falch i amgáu'r diweddariadau hyn i chi eu hystyried.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, cyn i mi ymddangos yn y sesiwn gyllideb ddrafft ar gyfer Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**  
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**  
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Copi: Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

